



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

CYNHYRCHU EICH YNNI EICH HUN Y Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Microgynhyrchu



3A



Helpu Cymru i leihau
ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce
its Carbon Footprint

Cartrefi

Medi 2012

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth ar gyfer deiliaid tai, cymunedau a busnesau sy'n awyddus i osod technoleg ynni adnewyddadwy ar raddfa fach neu leol megis panel solar neu dyrbin gwynt.

Dylid darllen y daflen hon ochr yn ochr ag **1 Cynhyrchu eich Ynni eich Hun: Arweiniad Cynllunio** sy'n rhoi arweiniad ynghylch lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys yr angen i ystyried mesurau defnyddio ynni'n effeithlon yn gyntaf cyn gosod technolegau ynni adnewyddadwy.

Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar y gofynion cynllunio presennol ynghylch technolegau microgynhyrchu mewn eiddo domestig (cartrefi a fflatiau).



A oes angen caniatâd cynllunio arnaf i ar gyfer fy nghynllun ynni?

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai gosod, addasu neu amnewid technoleg ynni adnewyddadwy y tu allan yn cael ei ystyried fel 'datblygu' at ddibenion cynllunio a byddai angen i chi ofyn felly am ganiatâd gan eich awdurdod cynllunio lleol (cyngor).

Fodd bynnag, ceir rhai mathau o 'ddatblygiadau' nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer – gelwir hyn yn 'Hawliau Datblygu a Ganiateir'. Mae rhai technolegau ynni adnewyddadwy microgynhyrchu wedi cael y statws hwn, ac felly nid oes angen caniatâd. Ceir nifer o amodau a throthwyon ynghylch a roddir y statws hwn iddynt ai peidio.

Mae'r daflen hon yn ganllaw cyffredinol ynghylch hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu. Mae'n bwysig eich bod bob amser yn cysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol yn gyntaf neu os nad ydych chi'n siŵr o ofynion eich technoleg ynni adnewyddadwy penodol.

Ewch i www.planningportal.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.



Pa dechnoleg ynni adnewyddadwy (microgynhyrchu) nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei chyfer?

Yn sgil newidiadau i'r Hawliau Datblygu a Ganiateir mae hi bellach yn bosib i rai mathau o gyfarpar microgynhyrchu gael hawliau datblygu a ganiateir. Roedd y newid hwn yn berthnasol ar gyfer y rheini a fyddai'n cael eu gosod mewn eiddo domestig (cartrefi a fflatiau) neu o fewn eu cwrtil. Mae'n bosib bod statws datblygu a ganiateir hefyd ar gael ar gyfer rhai cynlluniau i osod mewn mannau nad ydynt yn ddomestig (holwch eich awdurdod cynllunio lleol).

At ddibenion hawliau presennol ynghylch datblygu a ganiateir mewn eiddo domestig, caiff microgynhyrchu ei ddiffinio fel a ganlyn:

Math	Capasiti
Technolegau sy'n cynhyrchu trydan	50 cilowat (kW)
Technolegau sy'n cynhyrchu gwres	45 cilowat (kW)

Wrth i chi ystyried gosod technoleg microgynhyrchu a technolegau carbon isel, mae'n bwysig nodi bod angen i chi ymgynghori â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddechrau ynghylch y rheoliadau perthnasol. Caiff y rheoliadau hyn eu hamlinellu yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y rheoliadau:

www.cymru.gov.uk/cynllunio.

Nodiadau

Nid yw datblygu a ganiateir yn berthnasol i fflatiau oni bai eu bod mewn adeilad sydd yn cynnwys fflatiau yn unig. Nid yw datblygu a ganiateir domestig, Rhan 40, yn berthnasol os yw'r fflat uwchben siop. Dan yr amgylchiadau hyn, cyfeiriwch at Daflen **3B Cynhyrchu eich Ynni eich Hun: Y Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Microgynhyrchu (Annomestig)**.



Cynllun Arian yn Ôl am Ynni Glân (Tariff Bwydo i mewn)

Gyda'r Cynllun Arian yn Ôl am Ynni Glân (a elwir hefyd yn Tariff Bwydo i Mewn), gall perchnogion eiddo sy'n cynhyrchu eu trydan eu hunain o ffynonellau adnewyddadwy a ffynonellau carbon isel gael taliad rheolaidd gan eu cyflenwr ynni. Mae'r cynllun yn edrych ar ystod o dechnolegau sy'n amrywio o ran maint hyd at 5MW. Cyfeiriwch at Daflen **1 Cynhyrchu eich Ynni eich Hun: Arweiniad Cynllunio** i gael rhagor o wybodaeth am y tariff.

Y Fargen Werdd

Menter gan Lywodraeth y DU yw'r Fargen Werdd sy'n galluogi cwmnïau preifat i gynnig gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi deiliaid tai er mwyn gorchfygu rhai o'r rhwystrau ariannol i fanteisio ar fesurau effeithlonrwydd ynni heb unrhyw gostau ymlaen llaw.

Mae gwahanol fesurau amrywiol ynghlwm â'r Fargen Werdd, ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys technolegau microgynhyrchu fel paneli solar a thyrbinau gwynt.

I gael rhagor o wybodaeth am y Fargen Werdd ewch i wefan:

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

www.decc.gov.uk

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

www.est.org.uk

Ffôn 0800 512 012



Beth ddylwn i ei wirio yn gyntaf?

Cyn gosod technoleg microgynhyrchu, mae'n bwysig gweld yn gyntaf a yw eich tŷ:

- ✓ Mewn **Ardal Gadwraeth** neu **Safle Treftadaeth y Byd** gan fod rheolau gwahanol i'w cael yn y safleoedd dynodedig hyn, ac mae hyn yn golygu bod mwy o gyfyngiadau ar y mathau o gyfarpar y gellir ei osod, yn enwedig ar wal adeilad sy'n wynebu priffordd;
- ✓ Yn **Adeilad Rhestredig** a nodwyd oherwydd ei nodweddion pensaernïol neu hanesyddol; neu
- ✓ Yn ddarostyngedig i **Gyfarwyddyd Erthygl 4**, neu amod ar y caniatâd cynllunio gwreiddiol sy'n diddymu hawliau datblygu a ganiateir.
- ✓ Mewn **Ardal Diogelu Awyrennau** os ydych yn cynnig gosod tyrbin gwynt (gweler www.planningportal.gov.uk).

Yn yr achosion hyn, mae darpariaethau arbennig yn berthnasol a dylech chi ofyn am gyngor pellach gan eich awdurdod cynllunio lleol.

Ar yr amod nad oes yr un o'r uchod yn berthnasol i'ch tŷ chi, gallwch osod, addasu neu amnewid y technolegau canlynol

Paneli solar ffotofoltäig (PV) a phaneli solar thermol

- Ar unrhyw do neu waliau sydd eisoes yn bodoli yn eich tŷ neu fflat neu dŷ allan yn eich gardd, gyda hyd at 100% o orchudd. Ni chaiff rhan uchaf y paneli fod yn fwy na 200mm o arwyneb gwastad y to, neu arwyneb y wal, na bod yn uwch na rhan uchaf y to ac eithrio'r simnai.
- Ar do fflat cyn belled nad yw'r paneli o fewn 1 metr o ochr allanol y to ac nad ydynt yn estyn allan mwy nag 1 metr uwchlaw wyneb y to.

Paneli solar thermol a phaneli solar ffotofoltäig (sy'n sefyll ar eu pen eu hunain)

- O fewn ffiniau tŷ neu fflat a chyn belled â'u bod wedi'u gosod o leiaf 5m yn ôl o'r briffordd ac nad ydynt yn fwy na 2m o uchder yn unrhyw le o fewn 5m i ffiniau'r eiddo, neu 4m o uchder ym mhob man arall.
- Dim ond un casgliad solar sy'n sefyll ar ei ben ei hun y gallwch chi ei gael (un ffrâm ar gyfer y casgliad o baneli).
- Ni chaiff cyfanswm arwynebedd y paneli fod yn fwy na 9m² ac ni chaiff y casgliad (gan gynnwys unrhyw dai) fod yn fwy na 3m mewn unrhyw ddimensiwn.

Pympiau gwres

- Pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear ac o'r dŵr yn unrhyw le o fewn ffiniau eich tŷ neu fflat.
- Caniateir pympiau gwres ffynhonnell aer cyn belled â bod y sŵn yn cydymffurfio â Safon Cynllunio 020 y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (www.microgenerationcertification.org), nad yw'r cywasgwr (gan gynnwys unrhyw dai) yn fwy na 1m³, nad yw unrhyw ran o'r pympiau gwres ffynhonnell aer wedi'i gosod o fewn 3 metr i derfyn y cwrtil, a bod y pympiau gwres ffynhonnell aer ond yn cael eu defnyddio at ddibenion gwresogi.

Ffliwiau ar gyfer systemau gwres biomas neu ar gyfer systemau gwres a phŵer cyfunedig

- Ffliw sy'n rhan o'r systemau hyn ar yr amod nad yw'r ffliw yn ymestyn mwy na 1m uwchben rhan uchaf y to.



Tyrbinau gwynt annibynnol

- Mae'n rhaid iddynt fodloni Safon Gynllunio 020 y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (www.microgenerationcertification.org).
- Ni chânt fod yn uwch nag 11.1 metr (yn cynnwys y llafnau).
- Ni all y pellter rhwng lefel y tir a rhan isaf unrhyw lafn fod yn llai na 5 metr.
- Mae'n rhaid sicrhau pellter sy'n cyfateb i'w huchder ynghyd â 10% yn ychwanegol rhyngddynt â therfyn y cwrtil.
- Ni all ehangylch unrhyw lafn fod yn fwy na 9.6 metr sgwâr.
- Ni ellir eu lleoli ar dir a ddiogelir – mae angen edrych ar yr Offeryn Diogelu Awyrennau (gweler www.planningportal.gov.uk).

Gosod mast mesur y gwynt dros dro

- Ni chaiff fod yn uwch na 11.1 metr.
- Ni chaiff ei osod ar dir a ddiogelir (www.planningportal.gov.uk).
- Mae'n rhaid sicrhau pellter sy'n cyfateb i'w uchder ynghyd â 10% yn ychwanegol rhyngddo â therfyn y cwrtil.
- Mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 7 diwrnod i ddechrau'r datblygiad.
- Mae'n rhaid ei dynnu i lawr o fewn 12 mis i ddyddiad cyntaf y datblygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ac yn arbennig o ran paneli trydan solar (system ffotofoltäig) a phaneli dŵr solar (solar thermol), mae statws Datblygu a Ganiateir yn amodol ar leihau'r effaith ar amwynderau'r ardal a gwedd allanol eich tŷ neu fflat, ac mae'n rhaid tynnu'r cyfarpar os na fydd ei angen mwyach ar gyfer microgynhyrchu.

Ceir cyfyngiadau o ran gosod ynni solar, tyrbinau gwynt annibynnol, pypiau gwres ffynhonnell aer a ffliwiau biomas/Gwres a Phŵer Cyfunedig mewn ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer systemau biomas a systemau Gwres a Phŵer Cyfunedig domestig a gedwir tu mewn i adeilad. Fodd bynnag, efallai bod angen cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu.



Gosod cyfarpar - materion eraill i'w hystyried

Gall yr ystyriaethau canlynol ddylanwadu ar y math o gyfarpar y byddwch chi'n ei osod a'i leoliad ar eich eiddo neu o fewn ei ffiniau. Dylid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Edrychwch ar y taflenni sy'n ymwneud â thechnolegau penodol yn rhan ② o'r pecyn hwn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am brif effeithiau posibl y technolegau hyn a dulliau o leihau'r effeithiau hyn.

Dylid ystyried yr effeithiau ar:

- Eich cymdogion;
- Cymeriad eich cartref a'r cyffiniau;
- Safleoedd a gweddillion sydd o ddiddordeb archeolegol (pa un ai eich bod yn ymwybodol ohonynt ai peidio neu eu bod yn cael eu darganfod yn ystod y gwaith);
- Lleoliad parc hanesyddol neu goed gerddi cyfagos (yn enwedig y rheini a warchodir dan Orchymyn Cadw Coed); a
- Rhywogaethau a warchodir a bioamrywiaeth.

Mae hi hefyd yn bwysig cydnabod y gallai fod angen mathau eraill o ganiatâd, gan ddibynnu ar eich system ynni adnewyddadwy, fel:

- Caniatâd Adeilad Rhestredig os yw adeilad yn rhestredig.
- Caniatâd ardal gadwraeth os yw'r datblygiad o fewn ardal gadwraeth.
- Coed – mae llawer o goed yn cael eu diogelu gan Orchymynion Cadw Coed sy'n golygu y gallai fod angen caniatâd gan y cyngor i'w tocio neu'u cwmpo.



- Rheoliadau Adeiladu – yn aml bydd angen i waith adeiladu gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Rheoliadau Adeiladu, ewch i’n gwefan ar:
<http://cymru.gov.uk/topics/planning/buildingregs>.
- Bywyd gwyllt – gallai ystlumod fod yn clwydo mewn rhai adeiladau neu gallai adeiladau gynnwys rhywogaethau eraill a ddiogelir – caiff y rhain eu diogelu’n arbennig (Cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru).
- Trwyddedau Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gofynnwch i’ch awdurdod cynllunio lleol a yw unrhyw un o’r amodau hyn yn berthnasol i’ch safle neu’ch cynnig.



Rhestr wirio

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn rhoi arweiniad ynghylch y technolegau sydd eisoes â Hawliau Datblygu a Ganiateir nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer mewn eiddo domestig (tai a fflatiau).

Mae hefyd yn nodi pa dechnoleg a maint sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer y Tariff Bwydo i Mewn (i gael rhagor o wybodaeth am y Tariff Bwydo i Mewn, gweler taflen **1 Cynhyrchu eich Ynni eich Hun - Arweiniad Cynllunio ar gyfer Cartrefi, Cymunedau a Busnesau**).

I gael rhagor o wybodaeth am bob un o'r technolegau unigol a restrir isod, darllenwch y taflenni cyfatebol yn y gyfres hon.

Dim ond fel arweiniad y dylid defnyddio'r rhestr wirio hon – nid yw hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i bob man a cheir gwahanol gyfyngiadau a throthwyon ynghylch beth allwch chi ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio arnoch chi. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn gynharach yn y daflen hon.



Datblygu a Ganiateir ar gyfer eiddo domestig - Canllaw cyflym

Taflen	Technoleg	Graddfa*	Datblygu a Ganiateir	Tariff Bwydo i Mewn**
2A	Gwynt	0 – 50 kW	✓	✓
		50 kW – 5 MW	✗	✓
2B	System Solar Ffotofoltäig (trydan)	0 – 50 kW	✓	✓
		50 kW – 5 MW	✗	✓
2B	System Solar Thermol (dŵr)	0 – 45 kW	✓	✗
2C	Ynni Dŵr	0 – 5 MW	✗	✓
2D	Biomass - Gwresogi	0 – 45 kW	✓ (ffliwiau yn unig)	✗
2E	Treuliad Anaerobig	0 – 5 MW	✗	✓
2F	Gwres a Phŵer Cyfunedig	0 – 2 kW	✓ (ffliwiau yn unig)	✓
		2 kW – 45 kW	✓ (ffliwiau yn unig)	✗
2G	Pymphiau Gwres	0 – 45 kW	Aer – ✓	✗
			Daear – ✓	✗
			Dŵr – ✓	✗

*Nodyn: 1 kW = 1000 w

1 mW = 1000 kw (felly 5MW = 5,000 kW)

**Nodyn: Roedd y statws tariff Bwydo i Mewn yn gywir adeg cyhoeddi'r daflen hon.



Ffynonellau ar gyfer cael rhagor o wybodaeth

Llywodraeth Cymru	www.cymru.gov.uk www.walescarbonfootprint/home
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	www.environment-agency.gov.uk
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	www.ccw.gov.uk/
Cadw	www.cadw.wales.gov.uk/
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	www.est.org.uk Ffôn: 0800 512 012
Yr Ymddiriedolaeth Garbon	www.carbontrust.co.uk Ffôn: 0800 085 2005
Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu	www.microgenerationcertification.org/
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd	www.decc.gov.uk/
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012	www.legislation.gov.uk www.cymru.gov.uk/cynllunio



Y cyhoeddiadau sydd ar gael yn y gyfres hon

1	Cynhyrchu eich ynni eich hun - Arweiniad cynllunio ar gyfer cartrefi, cymunedau a busnesau
2A	Ynni Gwynt
2B	Trydan Solar
2C	Dŵr Solar
2D	Ynni Dŵr
2E	Biomass
2F	Biomass (Treuliad Anaerobig)
2G	Gwres a Phŵer Cyfunedig
2H	Pympiau Gwres
3A	Cynhyrchu eich Ynni eich Hun – Y Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Microgynhyrchu (Cartrefi)
3B	Cynhyrchu eich Ynni eich Hun – Y Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Microgynhyrchu (Annomestig)

Gellir gweld y dogfennau hyn ar ein gwefan yn:

www.cymru.gov.uk/cynllunio

Diweddarwyd ym mis Medi 2012



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7839 7

ISBN digidol 978 0 7504 7841 0

© Hawlfraint y Goron 2012

WG16095